Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

7 Hydref 2020

Annwyl Llyr

**Craffu ar y trefniadau ar gyfer ymadael â'r UE**

Diolch i chi am eich llythyr ar 24 Medi 2020 yn gofyn a fyddai'n briodol gweithio gyda'n gilydd ar y trefniadau ymadael â'r UE.

Yn dilyn sesiwn graffu gychwynnol ar 21 Medi, rydym wedi trefnu i glywed rhagor o dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AS, ar Fil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU am 10.00am ar 2 Tachwedd 2020.

O ystyried bod cymalau 46 a 47 y Bil yn ymwneud â phwerau ar gyfer Gweinidogion y DU a allai o bosibl effeithio ar setliad ariannol Cymru ac, yn unol â hynny, pa mor effeithiol y mae datganoli'n gweithredu, hoffem eich gwahodd chi ac aelod o'ch Pwyllgor i ddod i'n sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 2 Tachwedd. Rydym hefyd yn estyn gwahoddiad i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Os byddwch yn cytuno, gall ein Clercod perthnasol wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565